

Beibl i Blant yn cyflwyno

Iesu a Sacheus



Awdur: Edward Hughes
Lluniau gan: Janie Forest

Cyfieithydd: Catrin Roberts
addaswyd gan: Ruth Klassen


Stori 53 o 60

www.M1914.org

Bible for Children, PO Box 3, Winnipeg, MB R3C 2G1 Canada

Trwydded: mae gennych hawl i gopïo neu argraffu'r stori hon, ar yr amod nad ydych yn ei gwerthu.

Welsh



Un diwrnod,
aeth Iesu i mewn i
Jericho. Dyma'r
ddinas gafodd
ei dinistrio
gan Josua
ganrifoedd yn
ôl. Roedd wedi
cael ei hail-adeiladu
ac roedd llawer o
bobl yn byw yno -
gan gynnwys dyn o'r
enw Sacheus.


1





Doedd pobl Jericho ddim yn hoff
iawn o Sacheus, am fod rhaid iddyn nhw
dalu trethi iddo fe. Roedd Sacheus yn
anfon ychydig o'r arian i'r llywodraeth,
ond roedd e'n cadw llawer iddo'i hun.

2


Roedd ei waith fel casglwr trethi wedi gwneud Sacheus yn gyfoethog iawn. Ai tŷ Sacheus oedd y FWYAF yn yr ardal?



Ond roedd Sacheus yn ddyn byr. Doedd Sacheus ddim wedi tyfu fel pobl eraill.



Pan glywodd Sacheus fod Iesu wedi dod i Jericho, roedd e am weld y Dyn o Nasareth oedd yn dweud ei fod yn Fab Duw. Ond roedd yna dyrfa fawr... ac roedd y bobl yn dal.





Cafodd Sacheus syniad! Petai e'n gallu dringo coeden oedd yn tyfu wrth ymyl y ffordd ... byddai'n gallu gweld Iesu.



Wedi dringo coeden sycamor, eisteddodd Sacheus yn gyfforddus ar fforch yn y gangen a disgwyl am Iesu. Efallai iddo feddwl, "Bydda i'n gallu gweld Iesu yn glir, ond bydd neb yn gallu fy ngweld i."

"Sacheus, brysia! Tyrd i lawr!" Doedd y casglwr trethi bach ddim yn gallu credu ei glustiau. Roedd Iesu'n sefyll o dan y goeden ac yn edrych arno. Roedd Iesu'n galw arno fe!






Os oedd clywed Iesu'n galw arno yn synnu Sacheus, mae'n siŵr ei fod wedi ei synnu'n fwy pan ddywedodd Iesu, "Mae'n rhaid i mi aros yn dy dŷ di heddiw." Daeth Sacheus i lawr o'r goeden ar gymaint o frys, bu bron iddo syrthio.

9

Roedd Sacheus wrth ei fodd fod Iesu am ddod i'w dŷ. Ond doedd y bobl eraill ddim yn hapus gyda hyn. Fe wnaethon nhw gwyno fod Iesu'n mynd i aros i dŷ pechadur fel Sacheus.




10



Cafodd Sacheus fywyd newydd trwy Iesu. Dywedodd Sacheus, "Arglwydd, dwi'n mynd i roi hanner popeth sydd gen i i'r rhai sy'n dlawd. Ac os ydwi wedi twyllo pobl tala i bedair gwaith cymaint yn ôl iddyn nhw."

11

Roedd Iesu yn falch fod Sacheus wedi newid. Mae wrth ei fodd pan mae pobl yn troi o wneud pethau drwg a gwneud yr hyn sy'n dda. Dywedodd Iesu, "Dw i, Mab y Dyn, wedi dod i chwilio am y rhai sydd ar goll." Aeth Iesu i chwilio am Sacheus yn Jericho y diwrnod hwnnw - a chael hyd iddo!



12

Iesu a Sacheus

Stori o Air Duw, y Beibl

sydd i'w gweld yn

Luc 19

"Pan ddatguddir dy air, bydd yn goleuo."
Salm 119:130

Mae Duw yn gwybod bod ni wedi gwneud pethau drwg, beth mae e'n galw'n bechod. Y gosb am bechod ydy marwolaeth.

Mae Duw yn ein caru ni gymaint, fe wnaeth e anfon ei Fab, Iesu, i farw ar Groes. Fe wnaeth e gymryd ein cosb ni. **Daeth Iesu yn fyw eto** ac aeth yn ôl i'r Nefoedd! Nawr gall Duw faddau ein pechodau.

Os wyt ti am droi oddi wrth dy bechodau, beth am ddweud hyn wrth Dduw: Annwyl Dduw, rwy'n credu bod Iesu wedi marw drosaf fi a'i fod yn fyw eto. Os gweli'n dda tyrd i mewn i'm mywyd a maddau fy mhechodau, er mwyn i mi gael bywyd newydd nawr, ac yna cael bod gyda Thi am byth. Helpa fi i fyw fel plentyn i ti. Amen. Ioan 3:16

Cofia ddarllen y Beibl a siarad bob dydd gyda Duw!